Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

www.casgliadywerincymru.co.uk
www.peoplescollectionwales.co.uk

## Gweithgaredd Dysgu- Cam Cynnydd 4

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o naw yn ymwneud â Phatagonia ar gyfer Cam Cynnydd 4.

Sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia Mordaith y 'Mimosa', 1865
Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig Dyddiau cynnar ar dir Patagonia
O ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd - Patagonia Dyddiau du - llifogydd ac allfudo
**Ysgolion cynnar y Wladfa**
Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia
Capeli ac eglwysi'r Wladfa

# Ysgolion cynnar y Wladfa

## Gan Culturenet Cymru

## Cyflwyniad

'Credem o'r blaen mewn cael ysgolion Cymreig; ond credwn yn llawer cryfach yn hyny yn awr.'
Y Parchedig Michael D. Jones, yn dilyn ei ymweliad â'r Wladfa ym 1882

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Iaith swyddogol
2. Gwlad fabwysiedig
3. Cymdeithas Addysg Ganolraddol y Camwy
4. Gwerslyfr R. J. Berwyn
5. Y llyfr cyntaf i'w gyhoeddi
6. Diarhebion
7. Addysg Gymraeg ym Mhatagonia heddiw

[Lawrlwytho'r Casgliad o ddelweddau a thaflenni gwaith ar gyfer y gweithgaredd hwn o Gasgliad y Werin Cymru]

## Ysgolion cynnar y Wladfa


*'Credem o'r blaen mewn cael ysgolion Cymreig; ond credwn yn llawer cryfach yn hyny yn awr.' Y Parchedig Michael D. Jones, yn dilyn ei ymweliad â'r Wladfa ym 1882*

Yn fuan wedi i'r gwladfawyr cyntaf ymsefydlu yn eu cartref newydd ar lannau Afon Chupat, aethant ati i godi adeilad pren ar gyfer ysgol gyntaf y Wladfa. Cafodd y Parch. Lewis Humphreys, a ddeuai'n wreiddiol o Ganllwyd, ei benodi yn ysgolfeistr. Roedd plant o bob oed yn mynychu'r ysgol, ac yno caent addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond braidd yn ansefydlog fu'r sefyllfa yn yr ysgol am rai blynyddoedd. Dychwelodd Lewis Humphreys i Gymru ym 1867 oherwydd afiechyd, ac fe gymerodd y Parch. Robert Meirion Williams ofal o'r ysgol. Yn fuan wedyn, bu'n rhaid i Williams hefyd roi'r gorau i'r swydd oherwydd gwaeledd. Yn dilyn yr anawsterau hyn, fe drosglwyddwyd yr awennau i Richard Jones Berwyn, a bu yntau'n dysgu plant y Wladfa am flynyddoedd.



Disgyblion Ysgol Rawson, Patagonia, 1880

Er gwaethaf y diffyg adnoddau a chyfleusterau, roedd y gwladfawyr yn awyddus i'w plant dderbyn addysg dda. Ar y cychwyn, eisteddai'r plant ar feinciau pren syml gan ysgrifennu gyda sialc ar ddarnau o lechi. Nid oedd unrhyw werslyfrau heblaw'r Beibl Cymraeg. O weld yr angen am ddeunydd dysgu mwy addas, ysgrifennodd R. J. Berwyn werslyfrau wedi eu teilwra yn arbennig ar gyfer anghenion addysgol plant y Wladfa. Cyhoeddwyd 'Gwerslyvr Cyntav i ddysgu darllen Cymraeg at wasanaeth ysgolion y Wladfa' ym 1878 a chyhoeddwyd ail argraffiad estyngedig ym 1881. Roedd y llyfr yn cynnwys adrannau ar eirfa, penillion a diarhebion, storiau, a rhestr o enwau Cymraeg i blant. Hwn oedd y llyfr Cymraeg cyntaf i'w gyhoeddi ym Mhatagonia.


Gwerslyvr Cyntav

I DDYSGU DARLLEN CYMRAEG.

AT WASANAETH YSGOLION Y WLADVA.

AIL ARGRAFIAD,

WEDI EI DDIWYGIO A'I HELAETHU,

GAN R. J. BERWYN.

CYHOEDDWYD GAN YR AWDWR, AC ARGRAFWYD YN Y WLADVA—1881

['Gwerslyvr Cyntav i ddysgu darllen Cymraeg at wasanaeth ysgolion y Wladva' gan R. J. Berwyn (Ail argraffiad, 1881) [clawr, delwedd 1 o 23]]

Yn dilyn ethol bwrdd ysgol cyntaf y Wladfa ar ddiwedd y 1870au, aethpwyd ati i adeiladu ysgol newydd yn Nhrerawson. Erbyn dechrau'r 1880au, roedd pedair ysgol ddyddiol wedi eu sefydlu yn Nyffryn Camwy: Trerawson, Y Drofa Fawr, Y Gaiman a'r ysgol a gynhelid yng Nghapel y Glyn Du. Yn y cyfnod hwn y dechreuodd llywodraeth Ariannin gymryd diddordeb yn addysg y Wladfa. Ym 1878, penododd y Llywodraerth R. J. Powel (Elaig), Cymro a gafodd ei fagu yn Llundain, yn athro cenedlaethol yn Nyffryn Camwy. Roedd nifer o'r gwladfawyr yn gwrthwynebu'r cam hwn yn chwyrn. Cawsant eu cynddeiriogi gan ymyrraeth y Llywodraeth yn addysg eu plant, a'u pryder oedd y byddai'r Sbaeneg yn cymryd lle'r Gymraeg fel y brif iaith yn yr ysgolion. Yn wir, o fewn tair blynedd i gyhoeddi gwerslyfr Berwyn i ddysgu darllen Cymraeg mewn ysgolion, cyhoeddodd Elaig ei lyfryn 'Gwerslyvr i Gymro ddysgu Hispaeneg: wedi ei baratoi at wasanaeth ysgolion y Wladva'. Roedd y gwladfawyr hefyd yn ofni y byddai Elaig, a oedd yn Babydd, yn cael dylanwad andwyol ar addysg grefyddol eu plant.

Erbyn diwedd y 1880au, dysgid rhywfaint o Sbaeneg mewn saith ysgol yn y Wladfa. Cafodd Ysgol Rawson ei throi yn ysgol genedlaethol, ac o hynny ymlaen, Sbaeneg oedd cyfrwng swyddogol yr addysg. Yn raddol dechreuodd y Llywodraeth gynyddu ei dylanwad ar yr ysgolion llai, gan gyfrannu at gyflogau athrawon. Yn ogystal ag annog y plant y ddysgu'r iaith Sbaeneg, roedd yr awdurdodau Archentaidd yn awyddus i weld plant y Wladfa yn dysgu mwy am hanes a diwylliant eu gwlad mabwysiedig. Rhoddodd y llywodraeth groeso brwd felly i lyfryn a gyhoeddwyd ym 1891 o dan y teitl 'Gwerslyvr i Blant Ysgolion y Wladva, Hanes y Weriniaeth Arianin', a ysgrifenwyd gan un o athrawon y Wladfa, W. H. Hughes (Caeron). Erbyn 1893 roedd deg ysgol yn y Wladfa: pump yn ysgolion cenedlaethol a phump yn ysgolion Cymraeg annibynnol. Er bod yr ysgolion cenedlaethol yn cael eu noddi gan y llywodraeth, roedd dwy ohonynt (Y Gaiman a Bryngwyn) yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu, ac yn dysgu Sbaeneg fel pwnc.

# Ysgolion cynnar y Wladfa

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd llywodraeth Ariannin wedi tynhau ei gafael ar addysg plant y Wladfa. Ym 1896 cyflwynwyd deddfwriaeth i sicrhau mai Sbaeneg oedd cyfrwng addysg ym mhob ysgol gynradd genedlaethol. Ni fu'r polisi hwn yn llwyddiannus iawn yn y tymor byr, yn bennaf oherwydd gwrthwynebiad y rhieni a'r ffaith fod cynifer o'r athrawon yn Gymry. Mewn ymgais i frwydro yn erbyn y datblygiadau hyn, sefydlwyd Cymdeithas Addysg Ganolraddol y Camwy ym mis Rhagfyr 1904. Nod y Pwyllgor oedd sefydlu Ysgol Ganolraddol yn y Wladfa a fyddai'n darparu addysg cyfrwng-Cymraeg i blant dros bedair ar ddeg. Un o arweinyddion y mudiad hwn oedd y llenor a'r athrawes Eluned Morgan.

Ym mis Ionawr 1906, penodwyd David Rhys Jones, brodor o Gwmystwyth, Sir Aberteifi, yn brifathro cyntaf yr ysgol ganolraddol newydd. Yn ystod y misoedd cyntaf, cynhaliwyd yr ysgol mewn adeilad dros dro, ond wrth i nifer y disgyblion gynyddu, gwelwyd yr angen i sicrhau adeilad pwrpasol. Ar 20 Rhagfyr 1906 cynhaliwyd seremoni arbennig i osod carreg sylfaen yr adeilad newydd yn y Gaiman, a rhai misoedd yn ddiweddarach, agorwyd Ysgol Ganolraddol y Wladfa Gymreig yn swyddogol.

Bu sefydlu'r Ysgol Ganolraddol yn garreg filltir bwysig yn hanes y Wladfa. Yn yr ysgol hon, cafodd cenhedlaeth o blant y Wladfa gyfle unigryw i dderbyn eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg - cyfle nad oedd ar gael i blant Cymru ar y pryd. Ym 1924, fodd bynnag, agorodd y llywodraeth Ysgol Ganolraddol y Weriniaeth yn Nhrelew ac anfonwyd nifer o blant y Cymry i'r ysgol honno. Ar ddechrau'r 1950au, bu'n rhaid cau yr Ysgol Ganolraddol Gymraeg yn y Gaiman oherwydd y lleihad sylweddol yn nifer y disgyblion. Er hynny, wrth i ganmlwyddiant sefydlu'r Wladfa agosáu, cafwyd cynnydd sydyn yn yr alwad am addysg cyfrwng-Cymraeg ac ailagorwyd yr ysgol ym 1963 dan arolygiaeth y brifathrawes, Luned Vychan Roberts de Gonzáles.

Ffynonellau

R. Bryn Williams, Y Wladfa (Caerdydd, 1962)

# Ysgolion cynnar y Wladfa

## 1. Iaith swyddogol

Beth oedd iaith swyddogol ysgolion yng Nghymru yn y 1870au?

## 2. Gwlad fabwysiedig


Ydy hi'n bwysig dysgu am hanes a diwylliant eich wlad fabwysiedig? Trafodwch.

*Cwblhewch y daflen waith - 'Hanes a Diwylliant mewn Gwlad Fabwysiedig'*

## 3. Cymdeithas Addysg Ganolraddol y Camwy

Beth oedd nod Cymdeithas Addysg Ganolraddol y Camwy?


## 4. Gwerslyfr R. J. Berwyn




'Gwerslyvr Cyntav i ddysgu darllen Cymraeg at wasanaeth ysgolion y Wladva' gan R. J. Berwyn (Ail argraffiad, 1881) [clawr, delwedd 1 o 23]

Beth oedd prif atyniad gwerslyfr R. J. Berwyn?

## 5. Y llyfr cyntaf i'w gyhoeddi




['Gwerslyvr Cyntav i ddysgu darllen Cymraeg at wasanaeth ysgolion y Wladva' gan R. J. Berwyn (Ail argraffiad, 1881) [clawr, delwedd 1 o 23]]

Pam yn eich tyb chi mai hwn oedd y llyfr cyntaf i'w gyhoeddi yn y Wladfa?

## 6. Diarhebion

Ewch i dudalen 25 a dewiswch bedair dihareb.

['Gwerslyvr Cyntav i ddysgu darllen Cymraeg at wasanaeth ysgolion y Wladva' gan R. J. Berwyn (Ail argraffiad, 1881) [clawr, delwedd 1 o 23]]

Esboniwch ystyr y bedair dihareb drwy dynnu pedwar cartŵn.

*Cwblhewch y daflen waith – 'Diarhebion'*

## 7. Addysg Gymraeg ym Mhatagonia heddiw

Beth yw sefyllfa addysg Gymraeg ym Mhatagonia heddiw? Porwch drwy wefannau eraill i ddod o hyd i'r ateb.

.

# Hanes a Diwylliant mewn Gwlad Fabwysiedig

Ydy hi'n bwysig dysgu am hanes a diwylliant eich gwlad fabwysiedig? Pam?



Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.gtaniad.com/addysg




# Diarhebion

## Gwerslyvr Cyntav

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.gtoniad.com/addysg